Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Adroddiad gan y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Rheoliadau Byrddau Iechyd Lleol (Cyfansoddiad, Aelodaeth A Gweithdrefnau) (Cymru) (Diwygio) 2007

1. Penderfynodd y Pwyllgor y byddai'n craffu ar y rheoliadau hyn ac fe'u cyflwynwyd i'r Pwyllgor ar gyfer y cyfarfod ar 7 Chwefror 2007. Fe'u hystyriwyd yn unol â'r protocol ar gyfer ymdrin ag is-ddeddfwriaeth y cytunodd y Pwyllgor arno ar 11 Mehefin 2003, lle y mae Aelodau yn rhoi gwybod ymlaen llaw am unrhyw ymholiadau sydd ganddynt neu welliannau y maent am eu gwneud i'r Rheoliadau.

2. Ni chynigiwyd unrhyw welliannau gan Aelodau, ond cyflwynodd Jonathan Morgan AC ddau bwynt o eglurhad.

i. A yw Llywodraeth y Cynulliad yn bwriadu gwneud y rheoliad yn gymwys i ddirwyn i ben aelodaeth aelod o awdurdod lleol a oedd yn aelod gweithredol o'r cyngor (ble'r oedd y blaid/pleidiau llywodraethol wedi newid) yn ogystal â'r rhai sy'n aelodau'r meinciau cefn?

Dywedodd y Gweinidog fod y Rheoliadau'n canolbwyntio ar bob aelod etholedig.

ii. A yw rheoliadau blaenorol sy'n rheoli aelodaeth byrddau iechyd lleol yn darparu ar gyfer dirwyn i ben aelodaeth aelod o awdurdod lleol pan fo'r person hwnnw wedi peidio â bod yn gynghorydd?

Dywedodd y Gweinidog nad oedd y rheoliadau blaenorol yn darparu ar gyfer dirwyn i ben aelodaeth aelod o awdurdod lleol.

4. Roedd y Pwyllgor yn fodlon ar y rheoliadau fel y'u drafftiwyd.

Rhodri Glyn Thomas AC
Cadeirydd
Chwefror 2007